PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 12 MEHEFIN 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Henshaw, Lister, Mackie a/ac McKerlich |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw rai.

2 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd bod y Cyngor Blynyddol, yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2019, wedi cytuno ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad:

Craffu, monitro ac adolygu gweithrediad cyffredinol Rhaglen Gwella Caerdydd ac effeithiolrwydd gweithredu polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor yn gyffredinol, gan gynnwys:

- Materion Cyfansoddiadol a Rheoli Busnes y Cyngor
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd
- Datblygu Polisïau Strategol
- Rhaglenni Strategol
- Cynllunio Cymunedau a Fforwm Gweledigaeth
- Cysylltiadau’r Sector Gwirfoddol
- Cynnwys ac Ymgysylltu â Dinasyddion
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Gwasanaethau Canolfan Gyswllt a Mynediad at Wasanaethau
- Polisi Rhyngwladol
- Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd
- Cydraddoldeb
- Grantiau Corfforaethol a Chyllidol
- Datblygu Sefydliadol
- Rhaglen Effeithiolrwydd Caerdydd
- E-Lywodraeth
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Eiddo’r Cyngor
- Comisiynu a Chaffael
- Rheoli Carbon
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus

Craffu, monitro ac adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli a gweinyddu arian y Cyngor a'r defnydd o adnoddau dynol.

Asesu effaith partneriaethau a'r adnoddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol gan gynnwys gwasanaethau Llywodraeth Leol ar y cyd

Llywodraeth Cymru.  Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff anllywodraethol lled-adrannol ar effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

3 : CYLCH GORCHWYL

Noted that the Annual Council, at its meeting on 23 May 2019, agreed the following terms of reference for the Policy Review and Performance Scrutiny Committee:

To scrutinise, monitor and review the overall operation of the Cardiff Programme for Improvement and the effectiveness of the general implementation of the Council's policies, aims and objectives, including:

- Council Business Management and Constitutional Issues
- Cardiff Council Corporate Plan
- Strategic Policy Development
- Strategic Programmes
- Community Planning & Vision Forum
- Voluntary Sector Relations
- Citizen Engagement & Consultation
- Corporate Communications
- Contact Centre Services and Service Access
- International Policy
- Cardiff Local Development Plan
- Equalities
- Finance and Corporate Grants
- Organisational Development
- Cardiff Efficiencies Programme
- E-Government
- Information and Communication Technology
- Council Property
- Commissioning and Procurement
- Carbon Management
- Legal Services
- Public Services Board

To scrutinise, monitor and review the effectiveness of the Council's systems of financial control and administration and use of human resources.

To assess the impact of partnerships with and resources and services provided by external organisations including the Welsh Government joint local government services.  Welsh Government Sponsored Public Bodies and quasi-departmental non-governmental bodies on the effectiveness of Council services delivery.

To report to an appropriate Cabinet or Council meeting on its findings and to make recommendations on measures which may enhance Council performance and service delivery in this area.

4 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2019 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

5 : STRATEGAETH GWEITHLU 2018-21

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Philip Lenz, Prif Swyddog Adnoddau Dynol, ac Anita Batten, Partner Pobl Adnoddau Dynol i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai'r Aelodau, yn unol â chyfrifoldeb cyfansoddiadol y Pwyllgor Craffu ar y broses o weithredu polisïau Adnoddau Dynol y Cyngor, yn derbyn adroddiad cynnydd ar weithred Strategaeth Gweithlu'r Cyngor 2018-21. Bu'r Pwyllgor yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu polisi ar y strategaeth 3 blynedd hon ym mis Mai 2018, cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2018 a byddai'r cyfarfod hwn yn asesu'r cynnydd a wnaed hyd yma.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd y craffwyd ar hyn gerbron y Cabinet y llynedd ac y bu gwerth mewn edrych ar y 5 blaenoriaeth allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Cyfeiriodd yr Aelodau at Weithio Hyblyg a gofynnwyd beth mae hyn yn ei olygu a sut y caiff ei fesur. Eglurodd swyddogion fod gweithgor wedi'i sefydlu o dan y maes gwasanaeth Digidol i edrych ar y ffordd orau o wella gweithio'n gallach gan ddefnyddio technoleg.

O ran Cynlluniau Gweithredu Cynllunio'r Gweithlu'r Cyfarwyddiaethau, gofynnodd yr Aelodau a allent gysylltu ag unrhyw gyfarwyddwr a gofyn am gael gweld eu cynllun gyda'r manylion. Cynghorodd swyddogion fod gan Strategaeth y Gweithlu 5 cydran, ac 1 elfen oedd Cynllunio'r Gweithlu. Mae Cynlluniau Gweithlu'r Cyfarwyddiaethau yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol ac yn cwmpasu'r cyfnod penodiad i ymddeoliad. Hefyd, mae polisi cadw, polisi dysgu a datblygu ac ymgysylltiad a chymorth drwy Iechyd a Lles.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd yn digwydd gyda'r Adolygiadau Perfformiad a Datblygiad Personol (APDP) a'r adolygiadau perfformiad i unigolion a thimau. Dywedodd swyddogion fod Adolygu Perfformiad yn weithgaredd busnes o ddydd i ddydd; roedd staff yn cau camau'r APDP ar hyn o bryd ac yn gosod amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac roedd hyn yn rhan o adrodd corfforaethol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod APDP yn hanfodol ond eu bod yn fusnes arferol, y targed yw 100% a bod lefel uchel yn y 90au yn cael eu cwrdd fel arfer, a bod hyn yn bwydo i

mewn i strategaeth y gweithlu.  Gofynnodd yr Aelodau pam nad oedd APDP wedi'i integreiddio i'r strategaeth, a dywedwyd wrthynt eu bod bellach wedi'u gwreiddio. Gweithredir ar ganlyniadau ac mae'r strategaeth yn cefnogi canlyniadau APDP.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod mwy am wasanaethau Meddygon Teulu/Lles Cymunedol ac fe'u hysbyswyd bod meddygon teulu yn hyrwyddo gwasanaethau Iechyd a Lles y Cyngor yn eu meddygfeydd; hyrwyddir y rhain yn fewnol hefyd.  Cyflwynwyd Lles Cymunedol gan United Welsh a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n ymdrin â materion fel arwahanrwydd, tai, dyled, ac mae'r Cyngor yn atgyfeirio atynt.

Holodd yr Aelodau ynghylch nifer y staff yn y gwasanaethau Iechyd a Lles, ac fe'u hysbyswyd bod data'n cael ei gadw ar bresenoldeb mewn ffeiriau Iechyd a Lles, hyfforddiant Codi a Chario, tylino chwaraeon ac ati.  Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cael golwg ar y data hwn.

Gan gyfeirio at hyfforddiant Gwasanaethau Cwsmeriaid, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y broses o gyflwyno, targedu a mesur ei heffeithiolrwydd. Dywedodd swyddogion fod y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid yn arwain ar hyn, bod 3 lefel o hyfforddiant ac agwedd e-ddysgu yn cael ei darparu drwy dîm yr Academi a Gwasanaethau Cwsmeriaid.  Roedd hyn yn rhan o broses cynefino'r Cyngor; caiff dyddiadau eu pennu ar gyfer hyfforddiant, ceir meincnodau ac mae Cynlluniau Gweithredu yn nodi mesur effeithiolrwydd.  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y gallai hyn gyfiawnhau adolygiad gan y Pwyllgor.

Mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, nododd yr Aelodau fod llawer o waith wedi'i wneud ar anabledd a gyda Stonewall, ond bod angen gwneud mwy o ran pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.  Gofynnodd Aelodau a oedd yna deimlad o newid ymhlith y 51% yn fwy o bobl yn gwneud cais am swyddi, yn cymryd swyddi ac yn ofalwyr hefyd.  Eglurodd swyddogion fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr/Rhwydwaith Cydraddoldeb PDdLlE, a bod cynlluniau gweithredu yn edrych ar feysydd i'w blaenoriaethu.  Mae proffil y Cyngor yn newid a byddai gwybodaeth fwy cyfrinachol gan weithwyr yn ddefnyddiol at ddibenion monitro.  Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys y broses recriwtio ac yn y dyfodol bydd datblygiad pellach ar y Siarter Hil yn y Gwaith.  Byddai porthol newydd hefyd yn helpu i wneud ffurflenni cais yn ddienw.  Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymagwedd dim goddefgarwch a disgwylir i reolwyr gefnogi cydraddoldeb yn y gweithle.  Roedd Aelodau o'r farn y byddai'n dda gweld cynnydd dros y flwyddyn nesaf a dywedodd swyddogion y bydd ganddynt gylch blwyddyn lawn o ddata.

Roedd Aelodau o'r farn y byddai hefyd yn dda gweld gwybodaeth am ddilyniant gan fod angen i'r maes cydraddoldeb ddilyn drwy ddysgu a datblygu.  Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet â hyn ac ychwanegodd fod y Cyngor wedi agor i fyny, a'i fod bellach yn hysbysebu swyddi gwag i ymgeiswyr mewnol ac allanol gyda'r nod o adlewyrchu'r ddinas yr ydym yn byw ynddi. Mae angen rhoi cyfle drwy wneud cais, derbyn y swydd a datblygu ymhellach; mae angen hysbysebu'r Cyngor fel cyflogwr ac fel lle deniadol i weithio.  Ychwanegodd swyddogion y bu cynnydd o hyd at 25% yn nifer y ceisiadau gan y garfan iau yn ddiweddar.

Cyfeiriodd yr Aelodau at nifer y staff CALl, gan nodi gostyngiad o 20% dros y 10 mlynedd diwethaf, ac o ganlyniad roedd gwariant cyllidebol wedi cael ei ailbroffilio'n sylweddol.  Gofynnodd yr Aelodau a oedd perygl o dorri cyllidebau o flwyddyn i

flwyddyn ac nad oedd digon o adnoddau ar gael yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd unrhyw gyllidebu sylfaen sero wedi'i ystyried mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd cyllidebau sylfaen sero yn cael eu hystyried o gwbl, bod y Cabinet yn asesu drwy'r gyllideb a'r Cynllun Corfforaethol gyda chynlluniau tymor byr/canolig/hir yn erbyn blaenoriaethau/gwasanaethau corfforaethol ac ati. Ychwanegodd nad oedd amheuaeth bod y gyllideb yn effeithio ar gynllunio'r gweithlu. Roedd Aelodau o'r farn y bu newid mawr yn y 10 mlynedd diwethaf yn y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig a phroffil y gweithwyr, a bod angen edrych yn sylfaenol ar hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod pob gwasanaeth wedi cael ei gorfodi i edrych ar eu meysydd gwasanaeth eu hunain fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a chynllunio'r gweithlu gan gyfarwyddiaethau; edrychwyd ar yr holl wasanaethau, sut y cânt eu rhedeg ac a oes angen y gwasanaeth.

Nododd yr Aelodau fod y cyflwyniad yn manylu ar lawer o brosesau a gofynnodd sut y caiff llwyddiant ei fesur a pha ganlyniadau a ddisgwylir, gan fod nifer yr absenoldebau oherwydd salwch yn dal i gynyddu. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod llawer o ganlyniadau i'w mesur megis cyflawni yn erbyn amcanion o fewn y Cynllun Corfforaethol; cyflawni yn erbyn ffigyrau perfformiad Cymru gyfan; canlyniadau'r ysgolion; cynhyrchiant; y gallu i ddarparu gwasanaethau a gwasanaethu ein cwsmeriaid. Nid yr unig allbwn yw absenoldeb salwch, er yn hollbwysig. Roedd Aelodau o'r farn y byddai'n gwneud synnwyr i'w gysylltu â chanlyniadau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, gyda thystiolaeth i ddangos sut y mae canlyniadau'n cael eu cyflawni. Ychwanegodd swyddogion eu bod yn ceisio newid y gweithlu i adlewyrchu'r bobl y mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu, byddent yn gallu darparu ffigyrau sy'n dangos hynny; roedd hyn yn amcan ac mae'n digwydd yn awr; mae'n edau euraidd o fewn y Cynllun Corfforaethol, drwyddi draw. Roedd Aelodau o'r farn y gellid cysylltu canlyniadau, yr hyn a wnawn a thystiolaeth o'u cyflawni yn gliriach.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

6 : ABSENOLDEB SALWCH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Philip Lenz, Prif Swyddog Adnoddau Dynol; Anita Batten, Partner Pobl Adnoddau Dynol; a Gaynor Collins, Rheolwr Iechyd Galwedigaethol i'r cyfarfod

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddent yn awr yn adolygu alldro'r Cyngor o ran Absenoldeb oherwydd Salwch ar gyfer 2018/19, a'i gynnydd a'i gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb salwch. Mae'r Pwyllgor wedi tueddu i fonitro absenoldeb oherwydd salwch bob chwe mis, yn enwedig ers mis Ionawr 2018.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Adnoddau Dynol, y Cynghorydd Chris Weaver, i wneud datganiad lle dywedodd ei fod yn gwerthfawrogi'r ffocws sydd gan y Pwyllgor a'r cyngor gwaith ar y mater difrifol hwn i'r awdurdod. Nid yr alldro yw'r sefyllfa y credai'r awdurdod y byddai ynddi, neu y mae am fod ynddi.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Prif Swyddog Adnoddau Dynol Philip Lenz gyflwyno'r sefyllfa o ran absenoldeb oherwydd salwch; ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Roedd yr Aelodau'n siomedig, er bod y Pwyllgor yn argymell bod swyddogion yn edrych ar Ferthyr, na fydden nhw'n gwneud hyn tan chwarter 3 felly ni fyddai manteision unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu gweld eleni. Rhoddodd aelodau enghreifftiau fel Merthyr yn symud i hanner cyflog ar ôl 3 mis o salwch, tra bod Caerdydd yn symud i hanner cyflog ar ôl 6 mis; a Merthyr ond yn derbyn hunanardystio am 3 diwrnod, tra bod Caerdydd yn derbyn hunanardystio am 5 diwrnod. Nododd yr Aelodau fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyrraedd targedau neu'n gwella ar dargedau a gofynnwyd beth sydd wedi mynd o'i le yng Nghaerdydd. Dywedodd yr Aelod Cabinet bod absenoldeb salwch Merthyr wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf; roedd Glasgow yn ardderchog y llynedd ac mae bellach yn y pump isaf; ychwanegodd fod o ffactorau cenedlaethol/allanol ar fynd; bydd Caerdydd bob amser yn edrych ar arfer gorau ac archwiliwyd polisi Merthyr mewn perthynas â'r hyn a fyddai'n gweithio yng Nghaerdydd; ceir gwahanol sbardunau ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch, yn enwedig mewn ALlau o wahanol faint. Mae Caerdydd wedi gweld llwyddiant o ran lleihau a rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o absenoldeb oherwydd salwch yn straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod gostyngiadau hyd at 2015 a chynnydd ers hynny.

Gallai Aelodau weld eu bod yn ceisio rheoli'r materion hyn ond ystyriwyd y gellid gwneud mwy o ran y mesurau ataliol a awgrymwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Roedd aelodau o'r farn ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng straen sy'n ymwneud â gwaith/tu allan i'r gwaith felly dylid edrych ar hyn fel un; nododd yr Aelodau hefyd y gallai materion cyhyr-ysgerbydol fod yn gysylltiedig â straen. Roedd Aelodau o'r farn bod angen ymdrech i atal salwch yn rhagweithiol drwy edrych ar y ffordd yr ydym yn gweithio, bod y systemau yno ond nad yw'r nifer sy'n manteisio arno yn bodoli. Dywedodd swyddogion eu bod yn gwneud rhywfaint o waith ataliol fel ffisiotherapydd yn dilyn asesiad risg, nid dim ond ar ôl iddynt gael eu hanafu. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd edrych ar faterion a nodwyd mewn asesiadau risg a mynd i'r afael â nhw.

Nododd yr Aelodau fod pobl yn aml yn gorfod aros amser hir am apwyntiadau ysbyty a bod hyn y tu allan i'w dwylo. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn anodd dweud a oedd ffactorau o'r tu allan yn cynyddu salwch tymor hir. Ychwanegodd fod chwarter 1 yn is na 2015/16 a bod lluosydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer chwarter 4 sydd yn gyffredinol ddibynadwy a dyna pam y rhagamcanwyd y ffigwr yn wreiddiol. Ni chafodd hyn ei wneud y tro hwn ac roedd yn bwysig gwybod pam.

Nododd yr Aelodau fod yr oedran pensiwn yn cynyddu, felly roedd yn bosibl y gallai cyfraddau salwch gynyddu wrth i'r gweithlu heneiddio; gofynnodd yr Aelodau pa fesurau oedd ar waith i gadw'r gweithlu'n iach wrth iddynt nesáu at oedran ymddeol. Nododd yr Aelod Cabinet y gallai oedran gweithlu'r Cyngor fod yn wahanol i weddill y boblogaeth ond roedd hwn yn bwynt dilys i'w brofi.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ddata ar gael i bennu unrhyw batrymau mewn meysydd gwasanaeth penodol ac ati pan gynyddodd y ffigyrau'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Ailadroddodd yr Aelod Cabinet nad oedd y lluosydd wedi bod yn gywir y tro hwn ac roedd trafodaethau ar y gweill ynghylch hyn, ymrwymodd i ddod â hyn yn ôl i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd y data wedi cael ei ddrilio a'i ddadansoddi.

Nododd yr Aelodau'r cynnydd canrannol yn yr ystod oedran 45-64 oed ac, o ystyried yr ystod oedran, gallai cyfrifoldebau gofalu am blant ifanc a rhieni oedrannus fod yn ffactor. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai dadansoddiad o'r ffactorau hyn yn cael eu dadansoddi. Dywedodd swyddogion fod yna Rwydwaith Gofalwyr Cyflogeion a bod y niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol, ond gall presenoldeb fod yn isel oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Mae'r Polisi Gofalwyr wedi'i adolygu ac maent yn edrych ar ddatblygiadau yn y system Adnoddau Dynol er mwyn i gyflogeion allu nodi a ydynt yn ofalwyr. Roedd aelodau o'r farn y byddai hyn yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol gweld newid posibl i gymorth rheolwyr llinell drwy gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch. Cyfeiriodd swyddogion at basbort y Gofalwyr, lle gall cyflogeion drafod eu gofynion am gymorth gyda'u rheolwyr; roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol pan fo'r rheolwr yn newid.

Roedd aelodau o'r farn bod 2 ran wahanol i'r broblem; tymor hir a thymor byr. O ran y tymor hir, nododd yr Aelodau ei bod yn arfer bod yn bosibl cael mynediad at ofal iechyd preifat gyda thelerau a drafodwyd gan y Cyngor, ac y gallai cyflogeion ychwanegu aelodau o'r teulu ar gyfradd ostyngol. Roedd hyn yn galluogi mynediad cyflymach i apwyntiadau a dychwelyd i'r gwaith yn gyflymach. O ran y tymor byr, roedd yr Aelodau wedi'u synnu gan nifer y bobl a gafodd eu diswyddo a sut y gallai cyfnodau o absenoldeb gael eu dangos a byddai ganddynt ddiddordeb mewn gweld pa mor hir yr oedd y bobl hyn wedi gweithio i'r Cyngor. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n dibynnu ar y rhesymau dros absenoldeb fel salwch cronig ac ati. Cynhelir cynadleddau achos er mwyn mynd at wraidd y broblem a phenderfynu ar y cymorth neu'r ffordd ymlaen. Ychwanegodd swyddogion eu bod wedi adlewyrchu rhai elfennau o ofal iechyd preifat mewn rhai gwasanaethau iechyd galwedigaethol a ddarperir yn ogystal â'r gwasanaeth cwnsela. Dywedodd yr Aelod Cabinet, pe bai gofal iechyd preifat yn rhywbeth yr oedd y Pwyllgor yn dymuno ei archwilio, yna gallent gynnwys yn y llythyr ato ac fe fyddai'n edrych ar dystiolaeth o hyn.

Nododd yr Aelodau fod gan rai meysydd gwasanaeth fwy o absenoldeb oherwydd salwch nag eraill, a nodwyd mai 3 wythnos y flwyddyn oedd y cyfartaledd fesul cyflogai yn yr adran Wastraff, gan ofyn pam. Dywedodd swyddogion fod dadansoddiad o'r fath yn rhan o'r adolygiad APSE, a bod cynlluniau gweithredu wedi'u rhoi ar waith lle ceir lefelau uwch o absenoldeb. Mae gan y Pwyllgor y gallu i alw yn ôl ac adolygu meysydd gwasanaeth unigol. Cadarnhaodd data APSE fod rhai rolau Llywodraeth Leol yn cario risg uwch o ran absenoldeb oherwydd salwch, a bod rhai argymhellion ynghylch atal y mae Caerdydd eisoes yn eu gweithredu yn eu polisi. Ailadroddodd yr Aelodau nad yw'r canlyniadau'n cael eu gweld eto, a gofynnodd pa mor hir y byddai cyn cyrraedd y targedau a gwneud gwelliannau. Dywedodd yr Aelod Cabinet, o ymatebion pobl sy'n derbyn gwasanaethau cymorth, eu bod yn gweld lleihad mewn poen, fodd bynnag roedd yn rhy gynnar i weld effaith ar lefel yr absenoldeb net.

O ran yr awdurdodau lleol a berfformiodd yn well na Chaerdydd, gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r awdurdodau lleol hyn yn cael eu hystyried i weld beth maent wedi'i wneud i wella'r maes hwn. Dywedodd swyddogion nad oedd y sefyllfa derfynol gan bob ALl yn hysbys eto ond y byddent yn edrych ar hyn ar y cyd ac yn rhannu arfer da; edrych ar arferion da cyffredinol a'r hyn fyddai'n gweithio i Gaerdydd.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am atgyfeiriadau at Iechyd Galwedigaethol. Dywedodd swyddogion fod mwy o bobl ar salwch tymor hir na'r flwyddyn flaenorol; er mai'r arfer oedd cael atgyfeiriad awtomatig ar ôl 4 wythnos,

roedd hyn wedi dod i ben; bu effaith ar Iechyd Galwedigaethol na ddisgwylid. Ychwanegwyd y byddai absenoldebau mewn perthynas ag Iechyd Meddwl a chyhyr-ysgerbydol yn absenoldebau tymor hwy; nid oes gan ofal iechyd sylfaenol y capasiti ac maent yn cyfeirio at Wasanaethau Iechyd Galwedigaethol y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y gwasanaeth Ffisiotherapi yn Ffordd Lamby ac fe'u cynghorwyd mai'r prif reswm am hyn oedd un ataliol, er mwyn targedu'r rhai mewn gwaith a'u cynnal yn y gweithle; mae'r adborth yn dangos y bu lleihad o ran poen a symudedd gwell.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 7 : ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2018-2019

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau yr hoffent eu gwneud cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r cyngor llawn.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Drafft 2018-19 i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

## 8 : BLAENRAGLEN WAITH

Hysbyswyd yr Aelodau am eitemau i ddod ar gyfer y Pwyllgor nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod angen i'r Pwyllgor, ar yr adeg hon o'r flwyddyn, ystyried ei ddull o lunio rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ddinesig hyd at Orffennaf 2020. Pennodd cylch gwaith y Pwyllgor gyfrifoldebau a oedd yn rhan o *dri phortffolio'r Cabinet*: yr Arweinydd; yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu; a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am yr opsiynau o ran trefnu rhaglenni gwaith a chytunodd y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Craffu yn casglu eitemau posibl ac yn eu dosbarthu i'r Aelodau ar gyfer y drafft terfynol gan gynnwys pob dewis gan Aelodau, i'w cytuno yn y cyfarfod Pwyllgor ym mis Medi.

Gofynnwyd i'r Aelodau hysbysu'r Prif Swyddog Craffu ynghylch unrhyw faterion y maent am graffu arnynt o fewn y cylch gorchwyl.

## 9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y Pwyllgor nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher 10 Gorffennaf 2019, yn dechrau am 4.30pm, ac yn cael ei gynnal yn Ystafell Bwyllgor 4.

## 10 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm